# Adrodd Problemau

Mae’r Cyngor Sir wedi bod yn gweithio’n galed gyda Heddlu Dyfed-Powys i sicrhau bod pobl yn aros adre dros Benwythnos y Pasg a hefyd i beidio â theithio i Geredigion. Mae 'na sawl neges wedi mynd allan ar y cyfryngau cymdeithasol heddiw a dros y diwrnodau diwetha’ - os ydych ar y cyfryngau cymdeithasol, plîs rhannwch y rhain yn eang.

**Ond, os ydych yn ymwybodol bod 'na nifer o bobl yn eich trefi a phentrefi dros y penwythnos, neu bobl wedi dod i aros yn yr ardal, dylech adrodd y rhain i Heddlu Dyfed-Powys ar:**

**Ffôn: 101**
**E-bost: contactcentre@dyfed-powys.pnn.police.uk**
**Ar-lein: https://www.dyfed-powys.police.uk/cy/cysylltwch-a-ni/riportiwch-ar-lein/**

Diolch yn fawr iawn.